**Bwrdd Pensiwn RhCT CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
Cofnodion cyfarfod Bwrdd Pensiwn RhCT a gynhaliwyd ddydd Iau, 5 Mehefin 2025 am 10.00am yn Nhŷ Oldway, Porth.

**Bwrdd Pensiwn RhCT - Aelodau yn bresennol: -**

Yr Athro Hugh Coombs, Cynrychiolydd y Cyflogwyr (Prifysgol De Cymru) a Chadeirydd Bwrdd Pensiwn Rhondda Cynon Taf
Rob Whiles – Cynrychiolydd yr Aelodau (Pensiynwyr)
Darren Griffiths - Cynrychiolydd yr Undebau Llafur (Unison/CBS Merthyr Tudful)

**Swyddogion yn bresennol**

Mr I Traylor – Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiwn, Caffael a Thrafodion
Mrs C Black, Rheolwr y Gwasanaethau Pensiwn
Mr Barrie Davies - Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyfadran - Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen

**Ymddiheuriadau**
David Francis, Cynrychiolydd Cyflogwyr y Bwrdd Pensiwn (Coleg y Cymoedd)
Ms Y Keitch, Blaen Gyfrifydd

**1. DATGANIAD O FUDDIANT / GWRTHDARO BUDDIANNAU / CYFRINACHEDD**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda. Nodwyd cyfrinachedd y trafodaethau.

**2 <u>COFNODION CYFARFOD Y BWRDD PENSIWN AC AGENDA PWYLLGOR Y GRONFA BENSIWN</u>**

Cafodd cofnodion cyfarfod Bwrdd Pensiwn RhCT ar 6 Chwefror 2025 eu **CYMERADWYO** yn rhai cywir.

(Nodwyd mai'r ddolen ar yr agenda oedd ar gyfer cyfarfod Pwyllgor y Gronfa Bensiwn a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2024 ac nid 24 Mawrth 2025 fel y bwriadwyd)

**Materion yn codi o gofnodion y cyfarfod ar 6 Chwefror 2025**

- **Tudalen 4**- Cadarnhawyd bod y ffigurau ar dudalen 4 wedi cael eu diweddaru wedi hynny yng nghyfarfod Cydbwyllgor y Gronfa Bensiwn
- **Tudalen 6** - Nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y byddai'r weithdrefn mewn perthynas â chyfrifo ymadawiad 'Valleys to Coast' o'r Gronfa yn cael ei rhannu gyda'r Bwrdd, a bod hyn yn cyd-fynd â'r weithdrefn Credyd Ymadael. Byddai'r Bwrdd yn cael ei ddiweddaru ble'n addas.
- **Tudalen 5**- Yn dal i aros am ganllawiau pellach ar grantiau marwolaeth.

- **Tudalen 6** – Cadarnhawyd bod y dyfarniadau cyflog wedi'u hôl-ddyddio yn mynd rhagddynt
- **Tudalen 6 -** Nododd y Bwrdd fod porth 'Fy Mhensiwn Ar-lein' yn gwella ac yn datblygu
- **Tudalen 6** - Trafododd y Bwrdd ei bryderon difrifol bod trafodaethau rhwng RhCT a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn dal i fynd rhagddynt ynghylch ymuno ag iconnect.
- **Tudalen 7** – Fforwm Diogelwch Cymru (WARP) – i'w drafod mewn cyfarfod dilynol.
- **Tudalen 9** – Cadarnhawyd bod trafodaethau ynghylch aelodaeth Bwrdd Pensiwn RhCT yn y dyfodol yn cael eu hadolygu.

- Cadarnhawyd bod yr holl bwyntiau gweithredu a restrir yn dilyn y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 6 Chwefror wedi cael eu 'rhoi ar waith'.

**Partneriaeth Pensiwn Cymru -** Trafododd y Bwrdd y Cynllun Pensiwn hefyd o dan eitem 2. Cytunodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion cytunwyd i ddosbarthu'r ddolen i'r ymatebion i'r ymgynghoriad i'r LGPS: Ymgynghoriad diweddaraf 'Addas i'r dyfodol'

## 3. <u>PANEL YMGYNGHORI - BUDDSODDI A GWEINYDDU</u>

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiwn, Caffael a Thrafodion ddiweddariad ar gyflawniadau o ran buddsoddi ac eglurodd bod y ffigur diweddaraf ers y chwarter diwethaf, £4,876 miliwn (31 Rhagfyr 2024), wedi dangos gostyngiad bach yng ngwerth cyffredinol y Gronfa. Roedd hon yn sefyllfa sefydlog o ystyried ffactorau allanol fel tariffau'r UDA ac effaith digwyddiadau geo-wleidyddol.

Mae cyflawniad Baillie Gifford wedi dechrau gwella er ei fod yn cael trafferth gyda'i ddull gweithredu o ran ecwiti. Esboniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod eiddo yn farchnad anodd ar hyn o bryd ac nad yw'r Gronfa bellach yn buddsoddi yn y maes yma am y rheswm hwnnw.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth at y buddsoddiad coedwigaeth lleol arfaethedig gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru (DU) y mae Awdurdodau Cyfansoddol Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ystyried ymrwymo iddo. Nododd, o safbwynt Cymru, ei bod yn iawn ac yn briodol ystyried y cyfleoedd yma am effaith lleol, er bod RhCT wedi penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'r cyfle penodol hwn.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiwn, Caffael a Thrafodion drosolwg o ddyraniad asedau'r Gronfa yn ôl dosbarth asedau o'i gymharu â'r meincnod targed ar 31 Rhagfyr 2024.
Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Pensiwn, Caffael a Thrafodion fod copi o'r achos busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru sydd wedi'i gyflwyno i'r Llywodraeth, yn unol â chais yr Ymgynghorwyr Buddsoddi Annibynnol, wedi'i ddosbarthu. Dilynwyd hynny gan drafodaeth ynghylch rolau'r Ymgynghorwyr Buddsoddi Annibynnol yn y dyfodol ac a yw'r rhain yn debygol o newid. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth esboniad ynghylch sut olwg fyddai ar eu rôl pe bai'r gofynion llywodraethu newydd yn cael eu gorfodi.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Pensiwn, Caffael a Thrafodion yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am y fframwaith sgiliau a gwybodaeth. Dywedodd fod cynrychiolaeth dda o RhCT mewn cynadleddau a gweithgorau Partneriaeth Pensiwn Cymru a bod pob presenoldeb mewn hyfforddiant yn cael ei gofnodi'n briodol.

RHONDDA CYNON TAF

Gwnaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Gwasanaethau Pensiwn, Caffael a Thrafodion sylwadau ar yr ymateb mewn perthynas â thorriadau bach o ran y Rheoleiddiwr Pensiynau, a chytunodd y Bwrdd Pensiwn nad yw’r taliadau hwyr a nodwyd yn ystod y cyfnod adrodd yn gyfystyr â thoriad perthnasol at ddibenion adrodd ffurfiol.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiwn, Caffael a Thrafodion wybod am y canlynol:

- Cafodd 'Dogfennau Llywodraethu' allweddol y Gronfa (sydd bellach yn cynnwys 'Polisi Gwrthdaro Buddiannau' cyffredinol) eu cymeradwyo'n ffurfiol yng nghyfarfod ar y cyd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn a Bwrdd Pensiwn RhCT ar 24 Mawrth 2025.
- Mae canllawiau wedi'u diweddaru ar gyfer y Datganiad Strategaeth Ariannu wedi'u hadolygu a'u dosbarthu i bob rhanddeiliad allweddol a chyflogwr.
- Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol Cronfa Bensiwn RhCT 2024 cyn y dyddiad cau statudol, sef 1 Rhagfyr 2024
- Diweddariad ar Gyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol ac ymholiad ynghylch cost dull un ffynhonnell ar gyfer gweithredu - bydd modd newid gwedd y data a bydd y data'n cael ei gaffael gan y darparwr.
- Grantiau Marwolaeth - yn aros am gyngor technegol yn dilyn ymgynghoriad gan y Llywodraeth.
- Cyflwynwyd 'Adroddiad Digwyddiad' CThEM yn llwyddiannus erbyn diwedd mis Ionawr 2025 ar gyfer y flwyddyn dreth berthnasol.
- Cyflwynwyd Ffurflen Flynyddol y Rheoleiddiwr Pensiynau erbyn y dyddiad cau, gan gynnwys sgoriau data blynyddol cydymffurfiaeth uchel y Gronfa:

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ddiweddariad ar y gwaith a oedd ar y gweill cyn Prisiad 2025, gan gadarnhau bod prif amcan lefel ariannu'r Gronfa wedi gwella ymhellach ers yr ymarfer gwerthuso blaenorol.

Nododd y Bwrdd mai'r neges allweddol yng nghyfarfod 'Cyfathrebu Cymru Gyfan' a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2024, a'r newid i'r Isafswm Oedran Pensiwn Arferol i 57, a chynnydd o ran y Dangosfwrdd. Cafodd Aelodau'r Bwrdd yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwelliannau i borth ar-lein Aelodau'r Cynllun, a fyddai'n newid i'r fersiwn ddiweddaraf, 'Engage', yn ystod mis Gorffennaf/Awst.

Cydnabu'r Bwrdd y bydd y dyddiad cau o ran cyflwyno Datganiad Buddion Blynyddol 2025, sef 31 Awst 2025, yn cael ei fodloni a bod y gofyniad am wybodaeth sylfaenol, sydd i'w chynnwys am y tro cyntaf, wedi'i drafod ar sail 'Cymru Gyfan'. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y

byddai'r nodiadau esboniadol i gyd-fynd â'r Datganiad Buddion yn cynnwys cyfeiriad at yr hyn sy'n sail iddo, fel yr awgrymwyd gan y Bwrdd.

Yn dilyn Ymarfer 'Prawf Bywyd' blynyddol dramor, nodwyd bod chwe ataliad pensiwn pellach wedi'u rhoi ar waith, gan ddangos bod y system, a gynhelir yn flynyddol, yn effeithiol.

Darparwyd diweddariad mewn perthynas â McCloud. Mae 149 o achosion wedi'u nodi hyd yma lle mae'r sail yn cael effaith ac yn arwain at fuddion o ran taliadau. O ganlyniad i'r cynnydd rhagorol a wnaed, mae'r risg wedi'i hisraddio ar y gofrestr risg. Nododd y Bwrdd fod popeth yn ei le a bod y sesiynau gwybodaeth a gyflwynwyd wedi ysbrydoli hyder. Dymunai'r Bwrdd ddiolch i'r garfan am ei gwaith.

Aeth y Bwrdd ati i gydnabod bod niferoedd Hunanwasanaeth Aelodau yn gadarnhaol ac yn cynyddu.

Darparwyd diweddariad ar drosglwyddiadau cyflogwyr/mewnol a gwybodaeth am y corff derbyn newydd posibl yn gysylltiedig ag ail-dendro'r Cyngor ar gyfer contract gwasanaeth a fydd yn weithredol o fis Ebrill 2025.

Nododd y Bwrdd faint y targedau heriol o ran amserlenni'r safonau gwasanaeth allweddol a cheisio ymateb ynghylch beth fyddai'r arfer gyfreithiol yn hyn o beth. Esboniodd Rheolwr y Gwasanaethau Pensiwn fod y safonau gwasanaethau wedi cael eu datblygu gan y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, ond bod y targedau wedi cael eu gosod yn lleol. O ran Cronfa RhCT, mae'r safonau'n heriol ond yn gyraeddadwy mewn blwyddyn heb alw ehangach am brosiectau, ac er mwyn helpu i liniaru'r effaith yma, mae'r tasgau pensiwn allweddol yn cael eu blaenoriaethu yn unol â hynny.

Rhoddwyd gwybod i aelodau'r Bwrdd am ddatblygiad parhaus aelodau'r garfan, gan gynnwys y prentisiaid o ran allbwn, ac roeddent yn falch o nodi bod swyddi parhaol ar gael i'r prentisiaid. Trafododd y Bwrdd argaeledd cymwysterau priodol i weithwyr, yn benodol y Dystysgrif APE (Lefel TGAU) a'r Dystysgrif Safon Uwch.

(Nodwyd y byddai diweddariad ar Bartneriaeth Pensiwn Cymru yn cael ei ddarparu yn ddiweddarach ar yr agenda gan y Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Grŵp – Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen).

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau ddiweddariad ar y Buddsoddiadau Cyfrifol yn Gymdeithasol, yn benodol ar gynnydd y prosiect fferm wynt lleol drwy'r Cynllun Pensiwn a Chynllun Gwaith.

I gloi, darparwyd diweddariad ynghylch y pwyntiau gweithredu a chadarnhawyd bod a ymateb ffurfiol wedi'i anfon at y cyflogwyr hynny a oedd yn hwyr yn talu cyfraniadau i'r Gronfa Bensiwn. Nododd y Bwrdd y byddai diweddariad yn cael ei ddarparu ynghylch newidiadau i weithdrefnau pleidleisio BlackRock a Robeco ar ddaliadau sylfaenol yn yr Unol Daleithiau yn dilyn canllawiau newydd gan y SEC.

**4. <u>MONITRO RISG</u>**

Ystyriodd y Bwrdd y risgiau cyfredol sy'n gysylltiedig â Chronfa Bensiwn RhCT a nododd y newidiadau fel y'u nodir yn y Gofrestr Risg wedi'i diweddaru.

O ran y newidiadau i swydd Cadeirydd Pwyllgor y Gronfa Bensiwn i adlewyrchu portffolio'r Aelod Cabinet, roedd y Bwrdd yn dymuno anfon ei ddiolchiadau ffurfiol i'r Cynghorydd Mark Norris am ei ymrwymiad fel Cadeirydd sy'n ymadael a llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Christina Leyshon am gael ei phenodi'n Gadeirydd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig sydd i ddod.

**PENDERFYNWYD** nodi'r risgiau cyfredol sy'n gysylltiedig â Chronfa Bensiwn RhCT a'r mesurau rheoli sydd ar waith.

## 5. DERBYN DIWEDDARIAD AR LAFAR YNGLŶN Â CHYNNYDD PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU:

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Grŵp – Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen, gyflwyniad PowerPoint i'r Bwrdd mewn perthynas â Chronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf a'i hymateb i ofynion y Llywodraeth. Cafodd y PowerPoint ei gyflwyno o dan y penawdau canlynol:

- Cronfa Bensiwn RhCT (Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS))
- Partneriaeth Pensiwn Cymru (WPP)
- Gofynion y Llywodraeth
- Cynigion Partneriaeth Pensiwn Cymru
- Model Gweithredu Arfaethedig
- Llywodraethu / Goruchwylio
- Adroddiad Terfynol y Llywodraeth
- Gwneud Penderfyniad
- Amserlen

Yna cafwyd trafodaeth ynghylch y materion a godwyd a chydnabu'r Bwrdd y diweddariad gan ddiolch i'r Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Grŵp – Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen am gyflwyno'r diweddariad ac am roi gwybod i'r Bwrdd am y cynnydd.

## 6. FFRAMWAITH GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiwn, Caffael a Thrafodion Aelodau'r Bwrdd at yr hyfforddiant a wnaed hyd yma gan y Bwrdd a'r hyfforddiant sydd ar y gweill.

## 7. PROSIECTAU ALLWEDDOL – Y NEWYDDION DIWEDDARAF

Derbyniodd y Bwrdd ddiweddariad ar y materion canlynol:

- 'Dadansoddiad Bwlch' Cod Cyffredinol y Rheoleiddiwr
- McCloud (canllaw a chyfrifiannell trosglwyddiadau rhwng clybiau)
- Rhaglen Dangosfwrdd Pensiynau (canllaw cysylltu wedi'i gyhoeddi)

**'Dadansoddiad Bwlch' Cod Cyffredinol y Rheoleiddiwr**

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Pensiwn fanylion am 'Ddadansoddiad Bwlch' Cod Cyffredinol y Rheoleiddiwr Pensiynau. Nododd Aelodau'r Bwrdd y byddai dolen i daenlen y Dadansoddiad Bwlch yn cael ei rhannu gyda nhw i adolygu'r naratif ac i'r Bwrdd godi unrhyw faterion erbyn 31 Gorffennaf 2025, i ddangos bod cydymffurfiaeth.

**McCloud (canllaw a chyfrifiannell trosglwyddiadau rhwng clybiau)**

Darparwyd diweddariad ynghylch McCloud gyda Datganiadau Budd-daliadau Blynyddol, i'w gyhoeddi erbyn y dyddiad cau Rheoleiddiol sef 31 Awst 2025 ac i gynnwys y ffigurau sylfaenol. Nodwyd bod cyfarfod Cyfathrebu Cymru Gyfan wedi digwydd yn ddiweddar i gefnogi'r gwaith sy'n mynd rhagddo.

Nododd y Bwrdd mai'r sefyllfa bresennol oedd y gorau y gallai fod, gyda rhai materion heb eu datrys o safbwynt llywodraethu Bwrdd Pensiwn.

**Rhaglen Dangosfwrdd Pensiynau (canllaw cysylltu wedi'i gyhoeddi)**

Rhoddodd Rheolwr y Gwasanaethau Pensiwn ddiweddariad ar y Rhaglen Dangosfyrddau Pensiynau (PDP) Genedlaethol. Nododd y Bwrdd fod y gwaith ar y trywydd iawn o safbwynt llywodraethu a nododd ymhellach y bydd y dyddiad cau o fis Hydref 2025 yn cael ei fodloni.

**8. MATERION DEDDFWRIAETHOL A GWEINYDDOL**

Rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ar y canlynol:

- Ymgynghoriad diweddaraf 'Addas i'r dyfodol'
- Ymarfer Gwerthuso Cronfeydd
- Cynlluniau i newid rheolau cyfradd cyfraniadau cyflogwyr
- Mae Deddf Cyllid 2025 yn cyflwyno newidiadau deddfwriaethol sy'n rhoi polisïau a gyhoeddwyd yng Nghyllideb mis Hydref 2024 ar waith.
- Dim newidiadau i'r terfynau lwfans blynyddol yn 2025/26

Nododd y Bwrdd fod yr eitem 'Addas ar gyfer y Dyfodol' wedi'i thrafod yn flaenorol ar yr agenda a nododd y diweddariadau mewn perthynas â'r materion eraill.

**9. LLYWODRAETHU AMGYLCHEDDOL, CYMDEITHASOL A CHORFFORAETHOL**

Nododd y Bwrdd y diweddariad ar yr eitem hon yn gynharach ar yr agenda.

**10. MATERION ERAILL**

- Eitemau Diweddariad ar Fwletinau'r LGA (nodwyd y byddai dolenni i Fwletinau perthnasol yr LGA yn cael eu cynnwys ar yr agenda ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol).

- Nodwyd y byddai dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol (a gynhelir ym mis Awst, Hydref, Ionawr 2026 a Mawrth 2026) yn cael eu cadarnhau a'u dosbarthu maes o law.

- Rhoddwyd y newyddion ymgynghori diweddaraf mewn perthynas â chydraddoli buddion goroeswyr, ad-daliadau pensiwn rhywedd a'r cofnodi gorfodol o resymau dros optio allan.

  Daeth y cyfarfod i ben am 1.20pm

**Yr Athro H. Coombs**

**Cadeirydd.**